# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-26-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 10 Hydref 2006
### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Jeff Cuthbert

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – LEG(2)-25-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 3 Hydref 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw eitemau i'w nodi aeth y Cadeirydd ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w hystyried

LC1361 – Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006

4.1 . Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiad i'r Pwyllgor. Tynnodd sylw'r Aelodau at bwynt bach, am y defnydd o lythrennau dwbl. Awgrymwyd, i bwrpas eglurder fod un system nodedig yn cael ei defnyddio, sef defnyddio rhifolion Arabaidd a Rhufeinig. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad fod ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd Cyfreithiol.

4.2 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd Cyfreithiol.

LC1357 – Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006

LC1358 – Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006

LC1359 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2006

LC1360 – Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2006

LC1362 – Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006

LC1363 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

LC1364 – Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2006

## Eitem 5: Deddfwriaeth Rheol Sefydlog 25.2

LC1356 – Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006

5.1 Mewn perthynas â'r Cynllun uchod cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd Cyfreithiol.

## Eitem 6: Deddfwriaeth Rheol Sefydlog 25.2

LC1365 - The Specification for the Reinstatement of Openings in Highways 2nd Edition 2006

6.2. Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiad i'r Pwyllgor. Nododd fod y Fanyleb hon yn Saesneg yn unig a'i bod yn ddogfen gymhleth a thechnegol iawn oedd i'w chyfieithu gyda chynulleidfa gyfyngedig iawn. Nodwyd y byddai ar un llaw yn fuddiol cael cyfieithu hyd yn oed ddogfennau cymhleth, ond cytunodd yr Aelodau, gan fod y Fanyleb yn hir yn ogystal â chymhleth ac y byddai'r broses o gyfieithu yn cymryd amser hir, yr oeddent yn fodlon y dylai gael ei gadael yn Saesneg yn unig.

Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd Cyfreithiol.

Camau Gweithredu

Nid oedd unrhyw gamau gweithredu

## Eitem 7: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 17 Hydref 2006.